Chwaraeon RhCT
Sport RCT

@sportrct
www.chwaraeonrhct.co.uk | www.sportrct.co.uk

# Astudiaeth Achos

## Ysgol Gynradd y Cymer

Ar ôl mynychu cynhadledd Llysgenhadon Ifainc Efydd, dychwelodd dau ddisgybl o Ysgol Gynradd y Cymer i'r ysgol gyda'r bwriad o annog rhagor o ferched i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol. Datblygodd y merched brosiect wedi'i dargedu at Flwyddyn 5 a 6, ar ôl nodi fod merched y grwpiau blwyddyn hynny ddim yn cadw'n heini'n aml. Roedden nhw hefyd yn teimlo bod cyfleoedd i ferched gymryd rhan mewn chwaraeon yn brin, gan fod yr iard chwarae yn cael ei dominyddu gan fechgyn.

Cyn datblygu clwb ar ôl ysgol newydd, fe rannodd y merched arolwg i weld pa weithgareddau roedd gan y merched eraill ddiddordeb ynddyn nhw. Dangosodd ganlyniadau'r arolwg bod y merched eisiau cymryd rhan mewn bowls a phêl foli. Er mwyn cychwyn ar eu prosiect newydd, gwnaeth y Llysgenhadon gais am arian oddi wrthon ni. Cafodd eu cais ei dderbyn ac roedd modd iddyn nhw brynu'r offer newydd roedd ei angen arnyn nhw.

Unwaith roedd y clwb yn barod i'w lansio, cafodd llythyron eu dosbarthu i holl ferched Blwyddyn 5 a 6 ynghyd â ffurflen ganiatâd. Ymunodd 13 o ferched a dechreuodd y clwb ar ôl ysgol wythnosol. Bob wythnos, maen nhw'n cynllunio ac yn cyflwyno gemau a gweithgareddau gwahanol er mwyn helpu'r merched i roi cynnig ar bethau newydd a dysgu sgiliau newydd. Mae'r merched sy'n rhan o'r peth llawer mwy egnïol yn ystod eu hegwyl dros ginio, ac maen nhw'n defnyddio'r iard i chwarae'r gemau newydd maen nhw wedi'u dysgu.

Cam nesaf y Llysgenhadon yw ymgynghori gyda grwpiau oedran iau a lansio clwb newydd ar gyfer Blwyddyn 3 a 4. Maen nhw'n teimlo bod eu sgiliau arwain, cyfathrebu a chynllunio wedi gwella cryn dipyn ac maen nhw wedi mwynhau helpu eu cyfoedion i roi cynnig ar rywbeth newydd a dod o hyd i gamp maen nhw'n ei mwynhau!

**13** merch wedi ymgysylltu

**3** arweinydd

**100%** yn teimlo'n hapusach

**100%** yn teimlo'n fwy iach

**90%** wedi gwneud ffrindiau newydd

**100%** yn teimlo'n fwy hyderus

**100%** yn fwy heini, yn fwy aml

**100%** am barhau i fod yn fwy egnïol yn y dyfodol

RHONDDA CYNON TAF